**LC415**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Diwygio) 2002**

Mae'r gyfres o reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio yn rheoli danfon anifeiliaid byw, cig a chynhyrchion anifeiliaid o Gymru i lefydd y tu allan i Ynysoedd Prydain ac i Ogledd Iwerddon ac i Ynys Manaw.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio cyfredol er mwyn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 15 Ionawr 2002 (2002/37/EC). Maent yn mewnosod Atodlen 2 newydd sy'n ehangu'r ardal y caniateir danfon anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid penodol ohoni. Er nad yw'r un o'r ardaloedd a newidiwyd yng Nghymru, mae'r rheoliadau yn cael effaith mewn perthynas â Chymru oherwydd gall anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid gael eu danfon o'r ardaloedd hynny o Gymru.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

O fewn yr Atolden, dylai'r pennawd "SCHEDULE 1" fod yn "SCHEDULE 2". Dylid cywiro hyn cyn cyhoeddi'r Rheoliadau.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Chwefror 2002